# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Hydref 14eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Rhys Jones, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Huw Edwards, Euros Puw a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Cyng.Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 10fed 2025) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – **adroddodd y clerc fod y taflunydd a'r offer perthnasol wedi cael ei archebu ac y byddai'n hawlio'r arian yn nol gan Gyngor Gwynedd. Byddai yn symud ymlaen wedyn i archebu'r cadeiriau i Neuadd Parc.**

### iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Gorchymyn Cydgrynhoi Terfyn Cyflymder 30mya – Rhyduchaf.

b) Amrywiol.
i) Partneriaeth Natur Gwynedd - rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.
ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth 2026-27. **Mabwysiadwyd.**

### v) Ceisiadau Cynllunio.

Ni chyflwynwyd unrhyw gais cynllunio.

**vi) Materion Ariannol**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
**Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)
ii) TWE
iii) Archwilio Cymru (archwiliad allannol 2023/24)
iv) Taflunydd a'r offer perthnasol (ad-daliad i'r clerc)

c) Ceisiadau ariannol – Theatr Bara Caws

**vii) Materion lleol.**
**Nid oedd unrhyw faterion yn codi.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 11EG YN NEUADD MAESYWAEN.**